**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 29 Mai |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, *Cadeirydd* | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Ron Davies | Caerffili |
| Jocelyn Davies (nid eitemau 5 i 8) | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Griffiths (nid eitemau 5 i 8) | Dwyrain Casnewydd |
| Carwyn Jones, *Gweinidog (nid eitemau 5 i 8)* | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Swyddogion* | |
| Mike Dunn | Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Rory O'Sullivan | Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Stephen Nicholls | Is-adran Rheoli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| Colin Williams | Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Jim Norrie | Is-adran Iechyd Anifeiliaid |
| Tony Edwards | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Stephen Nicholls | Is-adran Rheoli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| Amanda Jones | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| | |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

Peter Jones Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyadau a datganiadau o fuddiant**

1. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Cynog Dafis.
2. Gwnaethpwyd y datganiadau o fuddiant a ganlyn:

- Datganodd y Cadeirydd ei fod ef a'i wraig yn bartneriaid mewn busnes ffermio.
- Datganodd Peter Rogers ei fod ef, ei wraig a'i fab yn bartneriaid mewn busnes ffermio.
- Cyfeiriodd y ddau at y manylion llawnach a oedd ar gael yn y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 09-02 (p1)**

***Gwlad***

2.1 Mynegwyd pryderon ynghylch effeithiolrwydd *Gwlad* fel y prif gyfrwng i hysbysu busnesau ffermio am newidiadau i reoliadau. Yr oedd adroddiadau wedi'u derbyn gan rai ffermwyr am oedi cyn derbyn y cyhoeddiad. Nodwyd bod arolwg wedi dangos bod cefnogaeth gyffredinol i'r cyhoeddiad drwy'r diwydiant. Cost cynhyrchu pob rhifyn ar gyfartaledd oedd £37,600 a chyfanswm cost y cyhoeddiad hyd hynny oedd tua £225,800.

2.2 Cytunodd y Gweinidog y byddai'r rhifynnau o *Gwlad* a oedd i ddod yn cael eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.

***Cenhadaeth y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth***

2.3 Byddid yn derbyn adborth am ymweliad cenhadaeth y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth ar ôl cyfarfod twtio a amserlennwyd ar gyfer 28 Mai.

***Rheoliadau Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2002***

2.4 Mynegodd yr Aelodau siom nad oedd y Pwyllgor wedi cael cyfle i ystyried y Rheoliadau cyn eu gwneud. Dywedodd y Gweinidog eu bod yn cyfuno nifer o Orchmynion a oedd yn bodoli a'u bod wedi'u rhoi ar waith mewn pryd ar gyfer ymweliad Cenhadaeth y Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth. Yr oedd y Rheoliadau wedi'u hamserlennu'n wreiddiol ar gyfer Ionawr 2002, ond ni wnaethpwyd hwy tan fis Mai ac yr oedd hyn yn adlewyrchu oedi tebyg yn y Gorchymyn cyfatebol yn Lloegr.

***Pwyllgor Dethol T^y'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad***

2.5 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol yr oedd y Gweinidog wedi tynnu sylw at werth y gynrychiolaeth o Gymru ar Gyngor Gweinidogion y DU, y manteision o gael aelod staff parhaol ym Mrwsel a'r angen am ddatganoli materion iechyd anifeiliaid i'r Cynulliad Cenedlaethol.

***Gwenwyno anifeiliaid oddi wrth gemegion amaethyddol***

2.6 Cytunodd y Gweinidog y byddai rhifyn o *Gwlad* yn y dyfodol yn cynnwys manylion am wenwyno bywyd gwyllt a oedd yn gysylltiedig â chemegion amaethyddol.

***Peirianwaith ar gyfer Apeliadau Annibynnol***

2.7 Byddai'r wybodaeth a ddarperid o ganlyniad i'r peirianwaith apeliadau newydd yn hwyluso canfod tueddiadau penodol o ran y gwallau cyffredin a geir wrth gwblhau ffurflenni'r System Gweinyddu a Rheoli Integredig (IACS).

***Deddfwriaeth Eilaidd***

2.8 Nododd yr Aelodau yr Offerynnau Statudol a oedd i ddod y dymunent eu hystyried yn fanylach yn y Pwyllgor, sef:

- The Prohibition of Fishing with Multiple Trawls Order 2002
- The Undersized Edible Crabs (Wales) Order 2002
- The Prohibition of Keeping or Release of Live Fish (Specified Species) (Amendment) (Wales) Order 2002
- Environmental Impact Assessment (Uncultivated land and semi natural areas) (Wales) Regulations 2002
- Organic Products Regulations
- Tir Gofal (Amendment) Regulations 2002
- The Geographical Indications, Designations of Origin and Certificate of Specific Character
- Welfare of Farmed Animals (Wales) Amendment Regulations 2002
- Livestock Quotas (Amendment) (Wales) Regulations 2002
- The South Wales Sea Fisheries District (Variation) Order 2002
- The South Wales Sea Fisheries Committee (Levies) Regulations 2002
- Action Programme for Nitrate Vulnerable Zones (Wales) Regulations 2002
- Tir Mynydd Amendments Regulations 2003

2.9 Gofynnodd yr Aelodau am gylchredeg unrhyw arfarniadau rheoliadol cyn y trafodaethau ar yr Offerynnau Statudol hyn.

2.10 Cytunodd y Gweinidog y byddai'r Gorchmynion a oedd yn ymwneud â Phwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru yn dod i'r Pwyllgor i'w hystyried cyn yr haf os oedd modd.

***Materion eraill***

2.11 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys manylion yn ei adroddiad ysgrifenedig nesaf am oblygiadau'r cofrestru statudol o lety a osodir i dwristiaid.

**Pwyntiau gweithredu**

Rhifynnau o *Gwlad* a oedd i ddod i'w dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd**

Rhifyn o *Gwlad* yn y dyfodol i gynnwys manylion am wenwyno bywyd gwyllt sy'n gysylltiedig â chemegion amaethyddol – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Gorchymyn Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru i ddod i'r Pwyllgor i'w ystyried cyn toriad yr haf **- Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd**

Ystyriaeth o'r Offerynnau Statudol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr agendâu ar gyfer y dyfodol yn unol â'r protocol a gytunwyd – **Yr Ysgrifenyddiaeth, CAC, Y Gweinidog, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol**

Adroddiad nesaf y Gweinidog i gynnwys manylion am oblygiadau'r cofrestru statudol o lety a osodir i dwristiaid – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Polisi Economaidd**

**Eitem 3:Cynllun Datblygu Gwledig: ARD 09-02(p2)**

3.1 Codwyd y materion a ganlyn yn y drafodaeth:

- yr angen am werthusiad ansoddol o fanteision amgylcheddol Tir Gofal i oleuo'r newidiadau i'r cynllun sy'n dilyn;
- y defnydd o arian o fodiwleiddio a'r cynnydd a wnaethpwyd ar gytuno ar lefel briodol o fodiwleiddio ar gyfer y dyfodol gyda llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill;
- nifer y newidiadau i'r Cynllun Datblygu Gwledig a ganiateir bob blwyddyn;
- yr angen am hyblygrwydd ynghylch y math o weithgareddau sy'n derbyn cymorth dan y mesur hyfforddi, gan gynnwys ymestyn y tu hwnt i hyfforddiant galwedigaethol i gynnwys cyngor a chyfarwyddyd a roddir dan Cyswllt Ffermio;
- yr angen i'r adroddiad blynyddol ar y Cynllun Datblygu Gwledig ystyried effaith niweidiol Clwy'r Traed a'r Genau ar incymau ffermydd.

3.2 Yn ei ymateb dywedodd y Gweinidog:

- y gellid darparu papur erbyn y cyfarfod ar 3 Gorffennaf ar y manteision a geir o Tir Gofal o ran yr amgylchedd a mynediad a’r cynnydd ar ddatblygu cynllun amaeth-amgylcheddol eang a bas;

- y byddai angen cytuno ar y gyfradd modiwleiddio ar lefel y DU ac y byddai’n rhaid cael negodiadau pellach. Cyn ystyried modiwleiddio pellach yn ddewis ymarferol i Gymru, yr oedd angen ymrwymiad i gyllid cyfatebol gan y Trysorlys;

- bod modiwleiddio wedi dechrau yn 2001 ac yr oedd yn ofynnol gwario’r arian a godwyd o fewn dwy flynedd. Dim ond ar ôl dyrannu arian a oedd heb ei fodiwleiddio y gellid gwario’r derbyniadau o fodiwleiddio;
- bod sylwadau wedi’u cyflwyno i’r Comisiwn Ewropeaidd, drwy Lywodraeth y DU, i gynyddu’r hyblygrwydd ynghylch newidiadau blynyddol i’r Cynllun Datblygu Gwledig. Yr oedd y newid ar gyfer Cymru i fod i’w drafod ym Mhwyllgor STAR y Comisiwn Ewropeaidd yn ei gyfarfod ar 29 Mai 2002;

- cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion am y manteision o ran bio-amrywiaeth a geir o ffermio organig.

**Pwyntiau gweithredu**

Y cyfarfod ar 3 Gorffennaf i gynnwys papur ar werthuso’r manteision o ran yr amgylchedd a mynediad a geir o Tir Gofal a’r cynnydd ar ddatblygu cynllun amaeth-amgylcheddol eang a bas – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Y Gweinidog i ddarparu manylion am y manteision o ran bio-amrywiaeth a geir o ffermio organig - **Y Gweinidog, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

**Eitem 4: Twbercwlosis Buchol: ARD 09-02(p3)**

4.1 Codwyd y materion a ganlyn yn y drafodaeth:

- yr amser a gymerir i symud adweithyddion oddi ar ffermydd;

- yr angen i ddarparu iawndal am golledion canlyniadol i fusnesau ffermio a gaiff eu niweidio gan gyfyngiadau ar symud gwartheg o ganlyniad i brofi am dwbercwlosis;

- dichonoldeb trefnu canolfannau casglu i hwyluso symud gwartheg a heintiwyd;
- goblygiadau ariannol y bwriad i gymhwyso’r ‘dehongliad llym’ yn ehangach;

- gweithrediad y rhaglen brofi well i ymdrin â’r ôl-groniad o brofion twbercwlosis hwyr, a’r adnoddau ar ei chyfer;

- digonoldeb y gyfundrefn brofi gyfredol a dichonoldeb cyflwyno profion twbercwlosis gorfodol ar gyfer anifeiliaid sy’n symud o fannau y gwyddys eu bod yn ddrwg i helpu i atal y clefyd rhag ymledu.

4.2 Yn ei ymateb gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

- y targed presennol ar gyfer symud gyrroedd o adweithyddion oedd 14 diwrnod, a oedd yn adlewyrchu’r angen i wneud trefniadau ymarferol a gweinyddol. Dylid anfon manylion am unrhyw achosion sy’n methu’r targed hwn at y swyddogion;
- nid oedd o blaid y syniad o dalu am golledion canlyniadol i’r busnesau yr effeithiwyd arnynt ac nid oedd yn meddu ar y cyllid na’r pwerau i wneud hynny heb gymeradwyaeth Ewropeaidd;

- disgwylid y canlyniad i’r sylwadau a gyflwynwyd yn ddiweddar i’r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch adnoddau ychwanegol i’r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yng Nghymru;

- ar hyn o bryd, cyfrifoldeb ffermwyr unigol oedd sicrhau profion ar anifeiliaid a gâi eu symud o ardaloedd lle’r oedd twbercwlosis yn bresennol. Yr oedd y trefniadau presennol yn ceisio defnyddio’r gallu profi presennol mor effeithlon ag y bo modd;
- cytunodd y Gweinidog i ddarparu manylion am raddau’r profi am dwbercwlosis mewn bywyd gwyllt.

**Pwynt gweithredu**

Y Gweinidog i ddarparu manylion am raddau’r profi am dwbercwlosis mewn bywyd gwyllt – **Y Gweinidog, Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid, y Prif Swyddog Milfeddygol**

**Eitem 5: Adolygiad polisi’r Pwyllgor o ffermio organig: ARD 09-02(p4)**

5.1 Gwnaeth Simon Brenman, Pennaeth Datblygu Cenedlaethol a Rhanbarthol yn y Gymdeithas Bridd, dynnu sylw at y prif bwyntiau yn y papur.

5.2 Gofynnodd yr Aelodau iddo egluro safbwynt y Gymdeithas Bridd ar y canlynol:

- y graddau yr oedd darnio yn y gadwyn gyflenwi’n effeithio ar gaffael lleol;
- y casgliadau y dylid eu tynnu o’r dystiolaeth ar y gwahaniaethau o ran diogelwch bwyd, cynnwys maethol, a’r gwerth maeth rhwng bwyd organig a bwyd a gynhyrchid yn gonfensiynol;
- cryfder y dystiolaeth dros fanteision amgylcheddol ffermio organig, yn enwedig ei effaith ar fio-amrywiaeth;

- y diffygion presennol yn rheolaeth y sector organig a'r graddau y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol helpu i'w datrys;
- y posibiliad i amaethyddiaeth yng Nghymru elwa'n economaidd ar ffermio organig o gofio ei bod yn dibynnu ar gynhyrchwyr bach â dwyseddau stocio uchel.

5.3 Yn ei ymateb gwnaeth Simon Brenman y pwyntiau a ganlyn:

- yr oedd anawsterau'n bodoli yn y gadwyn gyflenwi yng Nghymru ond yr oeddent ymhell o fod yn amhosibl eu datrys, yn enwedig yn achos y cynhyrchion organig pwysig;
- wrth ystyried y dewisiadau cymorth polisi ar gyfer y sector organig, yr oedd yn bwysig cydnabod y costau cynhyrchu ychwanegol a oedd yn gysylltiedig a'i gyfraniad at nodau amgylcheddol a chymdeithasol, yn ogystal â'r rhai economaidd;
- yr oedd adroddiad y Gymdeithas Bridd 'Biodiversity benefits of organic farming' yn cynnwys manylion pellach am fanteision amgylcheddol systemau organig. Byddid yn darparu copi o'r adroddiad i Aelodau'r Pwyllgor;
- yr oedd angen cydweithio a chydweithredu parhaus, yn enwedig ymysg cynhyrchwyr bach yn y sector, i wella rheolaeth a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd yn y farchnad;
- dylid ystyried cyflwyno cynllun cymorth parhaus i gynhyrchwyr ar ôl iddynt drawsnewid.

**Eitem 6: Adolygiad polisi'r Pwyllgor o ffermio organig: ARD 09-02(p5)**

6.1 Ailadroddodd Richard Harding, Pennaeth Strategaeth y Gadwyn Fwyd, safbwynt yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) nad oedd gwahaniaeth sylweddol o ran diogelwch bwyd a maethiad, ar sail y dystiolaeth gyfredol, rhwng bwyd organig a bwyd a gynhyrchid yn gonfensiynol.

6.2 Tynnodd yr Aelodau sylw at ymchwil a wnaethpwyd yn y Sefydliad Ymchwil Amgylcheddol a Thir Glas (IGER), a awgrymai fod cig organig yn cynnig manteision iechyd ychwanegol o'i gymharu â'r hyn a gynhyrchid yn gonfensiynol. Yr oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystyried yr holl dystiolaeth a oedd ar gael wrth asesu ei safbwynt a byddai'n croesawu ymchwil newydd a oedd yn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth.

6.3 Dywedodd Richard Harding fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd o blaid lleihau'r gwaddod o blaladdwyr o gynhyrchu organig a chynhyrchu confensiynol. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod y cyfyngiadau statudol presennol ar y gwaddodion o blaladdwyr a meddyginiaethau milfeddygol yn golygu bod yr effaith o fwyta'n ddibwys. Pwysleisiodd nad oedd cyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar wenwyndra yn dibynnu ar bresenoldeb neu absenoldeb plaladdwyr, ond ar y dogn a lyncid. Ar hyn o bryd yr oedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ymchwilio i'r 'effaith coctel' fel y'i gelwid, ond pwysleisiodd fod yr ymchwil wedi'i dechrau ar ôl pryderon ymysg y defnyddwyr yn hytrach na rhai gan yr Asiantaeth ynghylch diogelwch bwyd.

**Eitem 7: Adroddiad TGCh: ARD 09-02(p6)**

7.1 Gofynnwyd i’r Ysgrifenyddiaeth gysylltu â’r Aelodau ynghylch geiriad paragraff 12 ac argymhelliad (b), cyn cylchredeg drafft diwygiedig i’w gymeradwyo.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod blaenorol: ARD 08-02(min)**

8.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 15 Mai.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor - Mai 2002**